# Competition Brief

## Competition title

Beauty (Body)  Beauty Therapy Practitioner

## Competition overview

This competition includes; a back massage, an evening make up and French polish to the finger nails.

Check points (CP) will be used, to allow the judges to mark work at various stages during the competition, these are clearly marked below. Time checks (TC) are also used to inform the judges when a competitor has started and finished certain tasks (TC). Competitors will be required to indicate these to the judges by raising their hand.

Competitors taking part in this competition should be able to demonstrate:

- Professional demeanour.
- Safe working practices.
- Professional attitude.
- Effective interaction with the client.
- High level of skill and dexterity.
- Management of time allocation.
- Ergonomic working methods.

## Entry criteria

Working Towards Beauty Therapy Qualification Level 3.

## Number by location/organisation

Maximum number of entries

2 per location

3 per organisation

## Brief

**Pamper day  1 hour 40 mins**

The competitor will take control of their own timings, there will be no breaks between treatments.

The treatments must be performed in the following order;

**Task 1: Back massage**

This treatment should include:

- Pre cleanse to the back area.
- Back, neck and shoulder massage (minimum 20 minutes - TC).
- Excess oil removed (CP).

**Task 2: Evening Make up**

Important note: Models should arrive with make-up pre-applied, including foundation, mascara and lipstick.

This treatment should include:

- Cleanse (make-up removal - CP).
- Tone.
- Moisturise.
- Evening make-up should include concealer, foundation, contouring, blusher, eye-brow product, eye-shadow, eye-liner, mascara, artificial eyelashes, lip-liner and lipstick.

**Task 3: Nail Paint**

Important note: Cuticle work and filing is to be completed prior to the competition.

This treatment should include;

- French polish applied to all 10 nails.

## Infrastructure List

Beauty Couch and trolley will be provided by host - All other equipment, tools and products must be the competitors own.

## Competition rules

**Competition specific rules**

- Competitors must set up and participate in the competition on their own. At no point should accompanying tutors, colleagues or others be in the competition area before or during the competition. Models will enter the room at the start time of the competition.
- Where there are a number of competitors from a different campus attached to the same organisation, the competitors work stations will be placed around the competition area at the discretion of the judges.
- Competitors must not bring any ornaments to decorate their work area e.g. flowers, vases, etc.
- Competitors must ensure that they keep to timings set by judges at the beginning of the competition, extra time will not be allocated to those who are not ready for each task.
- Competitors should be dressed in beauty therapy attire and present themselves in a manner which would be acceptable within commercial enterprises. No jewellery or piercings are to be worn.
- Competitors must cover all logos and other items that identify their colleges or other organisations of origin.

- Competitors who arrive late will not receive additional time.
- Competitors will start and finish work as instructed by the judges.
- During the competition, competitors should not disturb other students/teams or speak to members of the public.
- Any competitor who wishes to leave the area during the competition must seek the permission of the judges.
- If there is a power stoppage, breakdown of machinery or accident, the competitors must act according to the instructions of the judges.
- Competitors who break or damage their own equipment during the competition will not receive additional time.
- Competitors will be required to bring a model on the day. The models must not be contra-indicated to any of the treatments.
- Models will be checked prior to the competitions; any found to be unsuitable will incur penalties for the competitor. Models must not aid the competitor in any way as this may affect the competitor's marks.
- Competitors are responsible for supplying all products and equipment, including towels. Hosts will however provide a couch, magnification lamp, stool and trolley. Only trolleys or your own storage boxes, under the couch, should be used for products and equipment. Any items placed on sinks, shelves and cupboards in the work area will be asked to be moved.

**No electrical equipment permitted**

**Where a competitor is observed working in an unsafe manner, s/he will be stopped and not permitted to continue unless willing to follow the judges' directions.**

**Generic competition rules**

- Mobile phones to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.

- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and assessment

| | |
|---|---|
| Personal and interpersonal skills | 15 |
| Back Massage | 25 |
| Evening Make up | 35 |
| Nail paint | 25 |
| **Total:** | **100** |

Each competition module will be assessed and marked independently of any other competition activity, using objective and judgement criteria or a combination of both during each task.

For all objective criteria, the following marking criteria will be used:

Objective assessment will be used whenever the process or product is correct or incorrect, complete or incomplete, against a given benchmark that the judges can agree on (0/1). It is used whenever it is possible to take a measurement of some kind.

For all judgement criteria, the following marking scale will be used/ or a variation:

0 – Does not meet industry standard

1 – Meets minimum industry standard

2 – Meets industry standard

3 – Exceeds industry standard

## Feedback and recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition. (Written feedback will not be provided)

No results or awards will be awarded on the day, as marking will be quality assured.

Certificates of Participation will be issued on the day.

Medallists will be invited to a Celebration Event which will be held on 19th March 2020 at Sophia Hall, Sophia Gardens, Cardiff CF11 9XR from 12pm to 5 pm, where the First, Second and Third Awards will be presented. https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html

## Competition Lead

**Lead Contact** : Michelle Jones 01978 267105 / 01978 267654 michelle.jones@cambria.ac.uk

Rona Griffiths Tel:07730192700 Email: rona.griffiths@cambria.ac.uk

**Expert Contacts:** Ruth Payton ruth.payton@cambria.ac.uk

| Teitl y gystadleuaeth | |
|---|---|
| Harddwch (Corff) | Ymarferydd Therapi Harddwch |

## Trosolwg o'r gystadleuaeth

Therapi Harddwch y Corff (Lefel Uwch)

Mae'r gystadleuaeth hon yn cynnwys: tylino'r cefn, colur ar gyfer y nos a farnais Ffrengig ar ewinedd y dwylo.

Defnyddir pwyntiau gwirio (PG) er mwyn galluogi'r beirniaid i farcio gwaith ar gyfnodau gwahanol yn ystod y gystadleuaeth, a nodir y rhain yn glir isod. Defnyddir gwiriadau amser (GA) hefyd er mwyn i'r beirniaid wybod pan fydd cystadleuydd wedi dechrau a gorffen tasgau penodol. Gofynnir i gystadleuwyr nodi'r rhain i'r beirniaid drwy godi eu llaw.

Dylai'r cystadleuwyr sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon allu arddangos:

- Ymarweddiad proffesiynol.
- Arferion gwaith diogel.
- Agwedd broffesiynol.
- Rhyngweithiad effeithiol â'r cleient.
- Lefel uchel o sgiliau a medrusrwydd.
- Y gallu i reoli'r dyraniad amser.

Dulliau gweithio ergonomig.

## Meini prawf cystadlu

Gweithio tuag at Gymhwyster Therapi Harddwch Lefel 3

## Nifer fesul lleoliad/sefydliad

Uchafswm y cystadleuwyr

2 fesul lleoliad

3 fesul sefydliad

## Briff

**Diwrnod pampro 1 awr 40 munud**

Bydd y cystadleuydd yn rheoli ei amseriadau ei hun, ac ni fydd unrhyw egwyl rhwng triniaethau. Rhaid cyflawni'r triniaethau yn y drefn ganlynol;

**Tasg 1: Tylino'r cefn**

Dylai'r driniaeth hon gynnwys:

- Cyn-lanweithio'r cefn.
- Tylino'r cefn, y gwddf a'r ysgwyddau (o leiaf 20 munud – GA).

- Tynnu unrhyw olew sydd ar ôl (PG).

**Tasg 2: Colur ar gyfer y nos**

Nodyn pwysig: Dylai'r modelau gyrraedd wedi'u coluro'n barod, gan gynnwys colur sylfaen, masgara a minlliw.

Dylai'r driniaeth hon gynnwys:

- Glanweithio (tynnu colur - PG).
- Tynhau.
- Lleithio.
- Dylai colur ar gyfer y nos gynnwys cuddiwr, colur sylfaen, colur amlinellu, powdwr gwrido, cynnyrch aeliau, lliw amrant, amlinellydd llygaid, masgara, blew amrant ffug, amlinellydd gwefusau a minlliw.

**Tasg 3: Peintio'r ewinedd**

Nodyn pwysig: Dylid trin y cwtiglau a ffeilio cyn y gystadleuaeth.

Dylai'r driniaeth hon gynnwys;

- Rhoi farnais Ffrengig ar 10 ewin y dwylo.

## Rhestr Seilwaith

Bydd y ganolfan yn darparu Gwely Triniaeth a throli. Mae'n rhaid i'r cystadleuwyr gyflenwi'r holl offer, cyfarpar a chynhyrchion eraill.

## Rheolau'r gystadleuaeth

**Rheolau penodol y gystadleuaeth**

- Mae'n rhaid i gystadleuwyr baratoi a chymryd rhan yn y gystadleuaeth ar eu pen eu hunain. Ni ddylai tiwtoriaid a ddaw gyda'r cystadleuwyr, cydweithwyr neu unrhyw arall fod yn ardal y gystadleuaeth unrhyw bryd cyn neu yn ystod y gystadleuaeth. Bydd y modelau'n dod i mewn i'r ystafell ar ddechrau'r gystadleuaeth.
- Os bydd nifer o gystadleuwyr o safleoedd gwahanol o fewn yr un sefydliad, bydd gweithfannau'r cystadleuwyr yn cael eu gosod o gwmpas yr ardal gystadlu yn ôl penderfyniad y beirniaid.
- Ni ddylai cystadleuwyr ddod ag unrhyw addurniadau i addurno eu man gweithio, e.e. blodau, fasau ac ati.
- Mae'n rhaid i gystadleuwyr sicrhau eu bod yn cadw at yr amser a osodir gan y beirniaid ar ddechrau'r gystadleuaeth. Ni roddir amser ychwanegol i unrhyw rai nad ydynt yn barod ar

gyfer pob tasg.

- Dylai cystadleuwyr wisgo gwisg therapi harddwch a chyflwyno'u hunain mewn modd a fyddai'n dderbyniol mewn sefydliadau masnachol. Ni ddylid gwisgo gemwaith na chelf corff.
- Mae'n rhaid i gystadleuwyr orchuddio pob logo ac eitemau eraill sy'n dangos i ba goleg neu sefydliad arall y maent yn perthyn.
- Ni fydd cystadleuwyr sy'n cyrraedd yn hwyr yn cael rhagor o amser.
- Bydd cystadleuwyr yn dechrau ac yn gorffen eu gwaith yn ôl cyfarwyddyd y beirniaid.
- Yn ystod y gystadleuaeth, ni ddylai cystadleuwyr darfu ar fyfyrwyr/timau eraill na siarad ag aelodau o'r cyhoedd.
- Dylai unrhyw gystadleuydd sy'n dymuno gadael yr ardal yn ystod y gystadleuaeth ofyn am ganiatâd y beirniaid.
- Os yw'r trydan yn diffodd neu os oes peiriant yn torri neu ddamwain yn digwydd, mae'n rhaid i'r cystadleuwyr ddilyn cyfarwyddiadau'r beirniaid.
- Ni fydd cystadleuwyr sy'n torri neu'n difrodi eu cyfarpar eu hunain yn ystod y gystadleuaeth yn cael rhagor o amser.
- Bydd yn ofynnol i gystadleuwyr ddod â model ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Ni ddylai'r modelau fod â gwrth rybuddion i unrhyw rai o'r triniaethau.
- Bydd y modelau'n cael eu gwirio cyn y cystadlaethau; bydd y cystadleuydd yn cael pwyntiau cosb os yw model yn anaddas. Ni ddylai'r modelau gynorthwyo'r cystadleuwyr mewn unrhyw fodd gan y gallai hynny effeithio ar farciau'r cystadleuydd.
- Mae'r cystadleuwyr yn gyfrifol am gyflenwi'r holl gynhyrchion a chyfarpar, gan gynnwys tywelion. Ond bydd y ganolfan fodd bynnag yn darparu gwely triniaeth, lamp chwyddo, stôl a throli. Dom ond y trolïau neu eich bocsys storio eich hun, o dan y gwely, ddylid eu defnyddio ar gyfer cynhyrchion a chyfarpar. Gofynnir i gystadleuwyr symud unrhyw eitemau a roddir ar sinciau, silffoedd a chypyrddau yn yr ardal waith.

**Ni chaniateir unrhyw gyfarpar trydanol**

**Os gwelir bod cystadleuydd yn gweithio mewn modd anniogel, bydd yn cael ei atal/hatal rhag cystadlu ac ni fydd yn cael parhau i gystadlu oni bai ei fod/bod yn fodlon dilyn cyfarwyddiadau'r beirniaid.**

**Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth**

- Dylid diffodd ffonau symudol yn ystod y gystadleuaeth.

- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth gyda chlustffonau yn ystod y gystadleuaeth.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y gystadleuaeth at y panel beirniaid.
- Ni ddylai'r cystadleuwyr gyfathrebu gyda chystadleuwyr eraill yn ystod y gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd fydd cyrraedd ar amser ar gyfer pob rhan o'r gystadleuaeth. Pe baech yn cyrraedd yn hwyr, ni roddir amser ychwanegol ichi.
- Pe bai rhyw wall technegol ar eich offer, dylid rhoi gwybod i'r panel beirniaid yn syth. Bydd amser ychwanegol yn cael ei roi os bydd y gwall y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac asesu

| | |
|---|---|
| Sgiliau personol a rhyngbersonol | 15 |
| Tylino'r cefn | 25 |
| Colur ar gyfer y nos | 35 |
| Peintio'r ewinedd | 25 |
| **Cyfanswm:** | **100** |

Bydd pob modiwl yn y gystadleuaeth yn cael ei asesu a'i farcio'n annibynnol ar unrhyw weithgarwch cystadlu arall, gan ddefnyddio meini prawf gwrthrychol a meini prawf beirniadu neu gyfuniad ohonynt yn ystod pob tasg.

Ar gyfer pob maen prawf gwrthrychol, defnyddir y meini prawf marcio canlynol:

Defnyddir asesu gwrthrychol bob tro pan fydd proses neu gynnyrch yn gywir neu'n anghywir, yn gyflawn neu'n anghyflawn, yn erbyn meincnod penodol y gall y beirniad gytuno arno (0/1). Caiff ei ddefnyddio pryd bynnag y bydd yn bosibl mesur mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Ar gyfer pob maen prawf beirniadu, defnyddir y raddfa farcio a ganlyn/neu
amrywiad arni:

0 - Nid yw'n bodloni safonau'r diwydian

1 - Yn bodloni isafswm safonau'r diwydiant

2 - Yn bodloni safonau'r diwydiant

3 - Yn rhagori ar safonau'r diwydiant

## Adborth a chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar, yn unigol ac mewn grŵp, yn cael ei roi ar ddiwedd y gystadleuaeth. (Ni roddir adborth ysgrifenedig)

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau'n cael eu dyfarnu ar y diwrnod oherwydd bydd angen sicrhau ansawdd y marcio.

| |
|---|
| Bydd Tystysgrifau Cyfranogi'n cael eu dosbarthu ar y diwrnod.<br>Bydd enillwyr medalau'n cael eu gwahodd i Achlysur Dathlu a gynhelir ar 19 Mawrth 2020 yn Neuadd Sophia, Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9XR rhwng 12pm a 5pm, lle y bydd y Gwobrau Cyntaf, Ail a Thrydydd yn cael eu cyflwyno. https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html |
| **Arweinwyr y Gystadleuaeth** |
| **Prif Gyswllt:** Michelle Jones 01978 267105 / 01978 267654 michelle.jones@cambria.ac.uk<br>Rona Griffiths Ffôn:07730192700 E-bost: rona.griffiths@cambria.ac.uk<br>**Cysylltiadau Arbenigol:** Ruth Payton ruth.payton@cambria.ac.uk |